

Cynllun corfforaethol 2016/17

Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Sut mae'r CFC yn gweithio	4
Ein cenhadaeth	5
Blaenoriaeth:	
Gwreiddio a pharhau i fireinio ein dull newydd ar gyfer arolygu	6
Parhau i wneud gwelliannau i ansawdd ac amseroldeb ein hachosion cymhwyster i ymarfer	7
Parhau i ddatblygu model ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus	8
Datblygu safonau a chanllawiau sy'n creu gwelliannau ac yn adlewyrchu'r agweddau, ymddygiadau, gwybodaeth a'r sgiliau y bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol eu hangen yn y dyfodol	9
Defnyddio technoleg i wella profiad cofrestredigion, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a lleihau costau prosesu	10
Amserlen amlinellol	11

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (heb gynnwys y logo a'r brandio) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid nodi mai eiddo Cyngor Fferyllol Cymru yw'r hawlfraint a rhaid nodi teitl y ddogfen. Pan fo deunydd o drydydd parti yn cael ei ddefnyddio rhaid cael caniatâd perchennog yn hawlfraint hwnnw hefyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon e-bostiwch **communications@pharmacyregulation.org** neu ffoniwch ein canolfan cyswllt cwsmeriaid ar **020 3713 8000**.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org/resources/corporate-publications**

Rhagarweiniad

Dyma'r cynllun corfforaethol 2016/17 ar gyfer y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFfC) - y rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig ym Mhrydain Fawr. Mae'n nodi ein blaenoriaethau i'r cyhoedd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a fydd yn ein cynorthwyo i gyflawni'r nodau cyffredinol a nodir yn ein Cynllun Strategol 2016-2019.

Nod y cynllun corfforaethol hwn yw:

- nodi ein blaenoriaethau gweithredol i'r cyhoedd ac sy'n effeithio ar ein rhanddeiliaid
- rhoi ffocws clir i'n uwch arweinwyr a staff ynglŷn â'r blaenoriaethau hyn, er mwyn ein cynorthwyo i gyflawni ein cynllun strategol
- darparu fframwaith y gallwn ei ddefnyddio i fonitro beth yr ydym yn ei wneud i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, fel ein bod yn gallu asesu ein cynnydd a'n perfformiad o ran gweithredu'r cynllun strategol

Sut mae'r CFfC yn gweithio

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod y gwaith yr ydym yn ei wneud yn adlewyrchu ein prif rôl, sef diogelu'r cyhoedd.

Byddwn yn gweithio i gyflawni'r nodau a nodir yn y cynllun strategol, ac yn arbennig:

- gwneud diogelwch cleifion yn rhan allweddol o'n dull ar gyfer rheoleiddio fferylliaeth a gwneud yn siŵr bod fferylliaeth yn gallu diwallu anghenion cleifion nawr ac yn y dyfodol
- defnyddio dull tair gwlad ar gyfer cynllunio a pholisi, gan roi ystyriaeth i'r gwahaniaethau mewn darpariaeth gofal a gwasanaethau fferylliaeth ac yn y gwasanaethau iechyd gwladol ar draws Prydain Fawr
- gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ym mhopeth a wnawn
- ymgysylltu fferyllwyr, technegwyr fferyllol, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn ein gwaith
- gwneud yn siŵr ein bod yn defnyddio ffioedd cofrestredigion yn effeithlon ac effeithiol
- gwneud gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud ym maes gofal iechyd yn rhan o'n holl waith, er mwyn lleihau risgiau i gleifion a'r cyhoedd
- gweithio gyda llywodraethau i wneud yn siŵr bod deddfwriaeth sy'n berthnasol i'n gwaith yn cynnal diogelwch cleifion ac yn hyrwyddo proffesiynoldeb

Ein cenhadaeth

Nodir ein cenhadaeth mewn statud:

'Diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau'r cyhoedd, ac yn arbennig yr aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n defnyddio neu sydd angen gwasanaethau cofrestredigion, neu'r gwasanaethau a ddarperir yn neu o fferyllfa gofrestrdig, drwy sicrhau bod cofrestredigion, a'r rheini sy'n cynnal busnes fferylliaeth manwerthol mewn fferyllfa gofrestrdig, yn cadw at y cyfryw safonau y mae'r Cyngor yn eu hystyried sy'n angenrheidiol ar gyfer arfer fferylliaeth ddiogel ac effeithiol.'

Mae ein Cynllun Strategol 2016-19 yn amlinellu ein pedwar nod trosfwaol:

- 1.** Darparu gwasanaethau rheoleiddio effeithlon ac effeithiol
- 2.** Sicrhau bod y tîm fferylliaeth yn gallu diwallu anghenion cleifion nawr ac yn y dyfodol
- 3.** Defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'n gwasanaethau rheoleiddio ac o'n gwaith gydag eraill i hyrwyddo gwelliant yn ansawdd gofal a gwasanaethau fferylliaeth
- 4.** Gwella ein dealltwriaeth o faterion, risgiau a chyfleoedd ym maes fferylliaeth fel bod rheoleiddiad fferylliaeth yn hyblyg ac yn addasu'n gyflym i anghenion cleifion ac i'r risgiau o fewn y sector

Mae'r cynllun corfforaethol hwn yn egluro sut y byddwn yn gweithio i gyflawni'r nodau hyn ym mlwyddyn ariannol 2016/17 ar gyfer meysydd ein gwaith i'r cyhoedd ac sy'n effeithio ar ein rhanddeiliaid.

Gwreiddio a pharhau i fireinio ein dull newydd ar gyfer arolygu

Sut gwyddom ei fod yn llwyddiant?

- Model arolygu a ddiweddarwyd sy'n adlewyrchu barn cleifion a'r cyhoedd, gweithwyr proffesiynol fferylliaeth a pherchnogion fferyllfeydd, a phrofiad y CFfC ei hun o gynnal arolygon
- Model arolygu sy'n agored ac yn dryloyw gydag adroddiadau arolygon wedi'u cyhoeddi
- Model arolygu cymesur lle mae amlder yr arolygon yn seiliedig ar berfformiad fferyllfeydd a'r materion sydd fwyaf perthnasol i ddiogelwch cleifion a'r cyhoedd

Cysylltiadau a thybiaethau allweddol

- Mae'r amserlen i ni ymgynghori ar a chyhoeddi adroddiadau arolygon yn dibynnu ar amseriad deddfwriaeth newydd

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2016/17 i sicrhau llwyddiant

- Ymgynghori ar y model arolygu a ddiweddarwyd, yn cynnwys y newidiadau i raddiadau arolygon
- Cyflwyno cylch arolygu hyblyg yn seiliedig ar berfformiad fferyllfa ac un sy'n ymateb i bryderon cleifion a'r cyhoedd
- Cyflwyno mecanwaith adolygu ffurfiol ar gyfer arolygwyr a pherchnogion sy'n anghytuno â barn arolwg a roddir i un o'u fferyllfeydd
- Dechrau prosiect i ddatblygu a gweithredu cyhoeddiad adroddiadau arolygon

Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- Gwneud yn siŵr bod ein hymgyngoriad ar y model arolygu a ddiweddarwyd yn hygyrch i unrhyw un sydd eisiau cyfrannu iddo
- Gwneud yn siŵr bod adroddiadau arolygon a gyhoeddir yn hygyrch i unrhyw un sydd eisiau eu darllen

Parhau i wneud gwelliannau i ansawdd ac amseroldeb ein hachosion cymhwyster i ymarfer

Sut gwyddom ei fod yn llwyddiant?

- Ymdrinnir ag achosion yn unol â'n safonau perfformiad
- Gwneir penderfyniadau cywir a chymesur drwy gydol y broses cymhwyster i ymarfer
- Rydym yn ymateb yn gyflym i ddelio â risgiau i ddiogelwch cleifion

Cysylltiadau a thybiaethau allweddol

- Adolygiad o'r meini prawf trothwy
- Byddwn yn adolygu data cymhwyster i ymarfer wrth ddatblygu ein polisi a'n dull gweithredol

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2016/17 i sicrhau llwyddiant

- Gwreiddio ymchwiliad cymesur o bryderon a fynegwyd er mwyn cau achos yn effeithlon neu ei atgyfeirio i wrandawriad ('parod am achos')
- Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhanddeiliaid o ddiben 'cymhwyster i ymarfer' a sut mae'r broses yn gweithio
- Adolygu sut yr ydym yn gweithio gydag aelodau o'r cyhoedd a allai fod eisiau mynegi pryderon a'r broses y gofynnwn iddynt ei dilyn

Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- Gwella hygyrchedd y ffurflen pryderon ar-lein drwy gynhyrchu diweddariadau a gwneud gwelliannau i'r wefan
- Cyflwyno dewis Cymraeg ar gyfer cyflwyno pryderon
- Dadansoddi canlyniadau cymhwyster i ymarfer er mwyn deall yn well eu heffaith ar EDI

Parhau i ddatblygu model ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus

Sut gwyddom ei fod yn llwyddiant?

- Sicrwydd ychwanegol i gleifion a'r cyhoedd bod cofrestredigion yn gymwys i ymarfer o ganlyniad i gyflwyniad proses sicrwydd ansawdd ychwanegol - model ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r model cymhwyster i ymarfer parhaus gan gofrestrdigion

Cysylltiadau a thybiaethau allweddol

- Wedi'i gysylltu i'r adolygiad safonau ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol, a fydd yn safon graidd ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus
- Wedi'i gysylltu i'n gwaith i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar draws ein prosesau rheoleiddio
- Gweithio ar y cyd gyda sefydliadau partner

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2016/17 i sicrhau llwyddiant

- Cynnal rhaglen beilot a gwerthuso model arfaethedig ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus gyda chofrestredigion, cyflogwyr cofrestredigion a sefydliadau partner posibl
- Profi, gwerthuso ac ymgynghori ar welliannau posibl i'r prosesau a'r gofynion DPP (datblygiad proffesiynol parhaus) presennol
- Paratoi cynigion ar gyfer ymgynghori yn 2017/18

Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- Rhaid i'r model adlewyrchu anghenion poblogaethau amrywiol o gofrestrdigion
- Rhaid i gymhwyster i ymarfer parhaus adlewyrchu anghenion gwledydd Prydain Fawr drwy allu addasu i'r gwahanol leoliadau ymarfer yn y gwledydd hynny
- Defnyddio dull cynhwysol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori wrth ddatblygu polisi

Datblygu safonau a chanllawiau sy'n creu gwelliannau ac yn adlewyrchu'r agweddau, ymddygiadau, gwybodaeth a'r sgiliau y bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol eu hangen yn y dyfodol

Sut gwyddom ei fod yn llwyddiant?

- Set ddiwygiedig o safonau proffesiynol yn disgrifio sut y caiff gofal diogel ac effeithiol ei ddarparu drwy broffesiynoldeb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Canllawiau sy'n rhoi gwybodaeth ymarferol a chyngor i helpu gweithwyr fferylliaeth proffesiynol i fodloni ein safonau
- Set ddiwygiedig o safonau rheoleiddio ar gyfer addysgu a hyfforddi fferyllwyr, technegwyr fferyllol, staff cefnogi fferyllfeydd heb eu cofrestru a phresgripsiynwyr fferyllwyr
- Safonau sy'n bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ac sy'n adlewyrchu gwerthoedd proffesiynol
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r safonau ymhlith y cyhoedd, gweithwyr proffesiynol, addysgwyr, myfyrwyr, hyfforddeion a rhanddeiliaid perthnasol eraill

Cysylltiadau a thymbiaethau allweddol

- Cysylltiadau i'r rhaglenni diwygio addysg yng ngwledydd Prydain Fawr, yn arbennig ynglŷn ag amseriad gweithredu
- Cysylltiadau i adolygiad Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) ar gyfer gwasanaethau Fferylliaeth a arweinir gan Sgiliau Iechyd
- Trafod y safonau newydd ar gyfer fferyllwyr gyda'r Gymdeithas Fferyllol yng Ngogledd Iwerddon fel eu bod yn cael eu gweithredu ar draws y DU (nid dim ond Prydain Fawr)
- Bydd safonau proffesiynol yn darparu'r fframwaith i'w ddefnyddio i sicrhau cymhwyster i ymarfer parhaus cofrestredigion

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2016/17 i sicrhau llwyddiant

- Cwblhau'r adolygiad o'n safonau ymddygiad, moeseg a pherfformiad - gan ymgynghori a chytuno ar ein safonau newydd ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol
- Dechrau adolygiad o'r canllawiau sydd eu hangen i gefnogi'r safonau proffesiynol
- Gosod rheolau a chanllawiau ar gyfer cymhwysedd iaith a threfniadau indemniad
- Adolygu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol y tîm fferylliaeth
- Cynnal rhaglen o ymgysylltu ac ymgynghori
- Cynllunio a chyflawni'r cyfathrebu strategol sy'n rhan o sefydlu'r safonau newydd

Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- Rhaid i gynnwys y safonau ymdrin â'r materion perthnasol - yn cynnwys, er enghraifft, dyletswyddau proffesiynol - o ran EDI
- Rhaid i'r cynnwys adlewyrchu anghenion gwledydd Prydain Fawr
- Defnyddio dull cynhwysol ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori tra byddwn yn datblygu'r safonau
- Cynnal dadansoddiad cydraddoldeb ar gyfer gwaith datblygu safonau

Defnyddio technoleg i wella profiad cofrestredigion, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a lleihau costau prosesu

Sut gwyddom ei fod yn llwyddiant?

- Gwell profiad ar-lein ar gyfer cofrestredigion, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill
- Cedwir costau prosesu cyn ised â phosibl

Cysylltiadau a thybiaethau allweddol

- Cysylltiadau i ddatblygu'r model cymhwyster i ymarfer parhaus
- Cysylltiadau i wella'r prosesau cofrestru ac adnewyddu

Beth fyddwn ni'n ei wneud yn 2016/17 i sicrhau llwyddiant

- Datblygu gwasanaethau ar-lein cofrestredigion
- Adolygu gofynion ein gwefan

Gwreiddio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

- Gwella hygyrchedd ein gwasanaethau ar-lein
- Gwneud yn siŵr ein bod yn bodloni gofynion o ran y Gymraeg

Amserlen amlinellol

Blaenoriaeth	Ebrill-Mehefin 2016	Gorffennaf-Medi 2016	Hydref-Rhagfyr 2016	Ionawr-Mawrth 2017
Gwreiddio a pharhau i fireinio ein dull newydd ar gyfer arolygu	Datblygu canllawiau gweithredol a phenderfynu pa adnoddau fydd eu hangen arnom i ddarparu model arolygu a ddiweddarwyd	Gofyn am farn ar fodel arolygu a ddiweddarwyd Cynnal rhaglen beilot o'r mecanwaith adolygu ffurfiol ar gyfer arolygwyr a pherchnogion sy'n anghytuno â barn arolwg	Dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a dechrau gweithredu'r model a ddiweddarwyd, yn cynnwys y graddiadau diwygiedig Cyflwyno'r mecanwaith adolygu ffurfiol ar gyfer arolygwyr a pherchnogion sy'n anghytuno â barn arolwg	Cwblhau'r paratodau a'r cyfathrebu ar gyfer cyflwyno'r broses arolygu statudol lawn, yn cynnwys cyhoeddi adroddiadau
Parhau i wneud gwelliannau i ansawdd ac amseroldeb ein hachosion cymhwyster i ymarfer	Bydd goruchwyllo achosion o ddydd i ddydd, a'r cam cynllunio ymchwiliad, yn atgyfnerthu a gwreiddio ymchwiliadau cymesur Datblygu offeryn cymhwyster i ymarfer e-ddysgu mewn partneriaeth â Chanolfan ar gyfer Addysg Broffesiynol Fferylliaeth Cymru (CABFFC)	Lansio'r offeryn cymhwyster i ymarfer e-ddysgu	Canllaw cyflogwyr i fynegi pryderon cymhwyster i ymarfer ar wefan y CFFC	
Parhau i ddatblygu model ar gyfer cymhwyster i ymarfer parhaus	Cynnal rhaglen beilot ar y model arfaethedig	Cynnal rhaglen beilot ar y model arfaethedig Cynllunio gwelliannau i'r prosesau a'r gofynion DPP presennol Cynnal rhaglen beilot ar y model arfaethedig	Gwerthuso effaith y rhaglen beilot Ymgynghori ar welliannau i'r prosesau a'r gofynion DPP presennol	Gwerthuso a pharatoi deunyddiau ymgynghori drafft

Amserlen amlinellol

Blaenoriaeth	Ebrill-Mehefin 2016	Gorffennaf-Medi 2016	Hydref-Rhagfyr 2016	Ionawr-Mawrth 2017
Datblygu safonau a chanllawiau sy'n creu gwelliannau ac yn adlewyrchu'r agweddau, ymddygiadau, gwybodaeth a'r sgiliau y bydd gweithwyr fferylliaeth proffesiynol eu hangen yn y dyfodol	Ymgynghori ar safonau diwygiedig ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol Ymgynghori ar safonau diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol Ymgynghori ar ofynion hyfforddi diwygiedig ar gyfer staff cefnogi fferyllfeydd heb eu cofrestru	Adolygu ymatebion i'r ymgynghoriad a chynhyrchu drafft terfynol ar gyfer safonau Dechrau ymgysylltiad ar safonau diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr	Safonau diwygiedig ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol i gael eu lansio erbyn mis Hydref 2016 Safonau diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol technegwyr fferyllol i gael eu cymeradwyo ym mis Tachwedd 2016 Gofynion hyfforddi diwygiedig ar gyfer staff cefnogi fferyllfeydd heb eu cofrestru i gael eu cymeradwyo ym mis Tachwedd 2016 Ymgysylltu ar safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant presgripsiynwyr annibynnol, ac ar gyfer achrediad a chydabyddiaeth cyrsiau fferylliaeth a fferyllwyr sydd ddim o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd	Gweithredu a pharhau i gyfathrebu ynglŷn â'r safonau ar gyfer gweithwyr fferylliaeth proffesiynol Safonau drafft ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a presgripsiynwyr annibynnol, ac ar gyfer achrediad a chydabyddiaeth cyrsiau fferylliaeth a fferyllwyr sydd ddim o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd sydd am gofrestru ym Mhrydain Fawr
Defnyddio technoleg i wella profiad cofrestredigion, cleifion, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill a lleihau costau prosesu	Datblygu gwasanaethau ar-lein cofrestredigion	Datblygu gwasanaethau ar-lein cofrestredigion	Adolygu gofynion ein gwefan	Gweithredu gwasanaethau ar-lein cofrestredigion Drafftio dogfennau tendro ar gyfer gofynion y wefan

Gwybodaeth bellach

Os hoffech ragor o wybodaeth am y CFfC gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Post 25 Canada Square, London, E14 5LQ

Ffôn 020 3713 8000

Y We pharmacyregulation.org

E-bost info@pharmacyregulation.org

Twitter [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)

Facebook [Facebook.com/TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)

LinkedIn [LinkedIn.com/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)

**Cyngor
Fferyllol
Cyffredinol**